

Cynlluniau Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw Cenedlaethol

Rhoddion Pâr/Cyfun

Rhoddion Allgarol Heb Eu Cyfeirio

Cadwyni Rhoddion Allgarol Heb Eu Cyfeirio



Atebion i'ch cwestiynau

0300 123 23 23

www.organdonation.nhs.uk

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth os ydych chi'n meddwl am roi neu dderbyn aren fel rhan o'r Cynlluniau Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw Cenedlaethol*, sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhoddion Pâr/Cyfun
- Rhoddion Allgarol Heb Eu Cyfeirio
- Cadwyni Rhoddion Allgarol

I'ch helpu chi i wneud eich penderfyniad, rydym yn argymhell eich bod yn darllen y daflen hon ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall rydych chi wedi'i derbyn am drawsblannu arennau gan roddwyr byw*, gan gynnwys taflen yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (AMD)* 'Information About Living Donor Transplants', sydd ar gael gan eich cydlynnydd rhoddwyr byw neu yng ngwefan yr AMD www.hta.gov.uk. Mae gwybodaeth am drawsblannu arennau gan roddwyr byw ar gael hefyd yng ngwefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG* yn www.organdonation.nhs.uk

Os ydych chi'n meddwl am roi neu dderbyn aren, rydym ni eisiau i chi wybod cymaint ag y bo modd am beth mae'n ei olygu i chi a pha ddewisiadau sydd ar gael i chi o bosibl.

Yng nghefn y daflen hon fe welwch chi eirfa a fydd yn egluro rhai o'r termau neu'r byrfoddau mwy technegol a ddefnyddir, os nad yw'r rhain wedi cael eu hegluro yn y daflen ei hun. Mae'r rhain wedi cael eu tanlinellu a'u marcio gyda* i'ch helpu chi.


Rhoddion Pâr/Cyfun

C1 Beth yw rhoddion pâr/cyfun?

A1 Pan mae rhoddwr aren byw a derbynnydd yn anghydweddol* â'i gilydd, naill ai oherwydd grŵp gwaed neu oherwydd y math o Antigen Lymffocyt Dynol (ALD)*, efallai y bydd modd eu cyfateb â phâr arall o roddwr a derbynnydd yn yr un sefyllfa ac y bydd modd 'cyfnewid' neu 'ffeirio' yr arennau sy'n cael eu rhoi. Mae hyn yn golygu bod y derbynnydd yn derbyn aren gan rywun anhysbys ac, ar yr un pryd, mae'r rhoddwr yn rhoi i dderbynnydd nad yw ef/hi yn ei adnabod. Pan mae dau bâr yn gysylltiedig, gelwir hyn yn rhodd pâr ac, os oes mwy na dau bâr, rhodd gyfun, fel yn ffigur 1. Mantais y math yma o roi yw bod pob derbynnydd yn derbyn trawsblaniad aren gan roddwr byw na fyddai ef/hi wedi ei derbyn fel arall.

Weithiau bydd parau o roddwr a derbynnydd* sy'n cydweddu* â'i gilydd yn dewis cynllun pâr/cyfun; os oes gwahaniaeth oedran mawr rhyngddynt neu os oes ganddynt fathau gwahanol iawn o ALD, gall parau ddewis bod yn gofrestredig gyda'r cynllun pâr/cyfun i weld a allant ddod o hyd i well cyfatebiaeth. Er enghraifft, mae derbynnydd ifanc yn debygol o fod angen mwy nag un trawsblaniad yn ystod ei oes ef/hi felly efallai bod rhoddwr ifanc gydag ALD sy'n cyfateb yn nes yn well er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r aren sy'n cael ei thrawsblannu weithio am gyfnod hir ac i ostwng y risg o ddatblygu gwrthgyrff* yn erbyn rhoddwr yn y dyfodol.

* Gweler yr eirfa ar dudalen 10.



Ffigur 1. Rhoddion pâr a chyfun.

C2 Pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynllun pâr/cyfun?

A2 Mae unrhyw bâr o roddwr a derbynnydd sy'n ystyried rhodd o aren byw yn gymwys ar gyfer y cynllun ac, ar wahân i'r eithriad a ddisgrifir (gweler Ateb 1), mae'n well gan y rhan fwyaf o barau sy'n cydweddu roi a derbyn yn uniongyrchol. Mae'r broses yn symlach fel rheol gyda mwy o hyblygrwydd i gynllunio'r trawsblaniad yn eu hamser eu hunain pan nad oes parau eraill yn gysylltiedig â'r broses.

Os ydych chi'n dderbynnydd sy'n anghydweddol â'ch rhoddwr, mae rhodd pâr/cyfun yn un o nifer o ddewisiadau y dylech chi ei drafod yn fanwl gyda'ch tîm trawsblannu fel eu bod yn gallu eich helpu chi i benderfynu a yw'n opsiwn da i chi. Mae'r trafodaethau hyn yn wahanol i bob pâr oherwydd mae'r penderfyniad yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch dewisiadau chi eich hun; efallai bod rhesymau pam na fyddai'r cynllun pâr/cyfun yn addas i chi. Os ydych chi wedi cofrestru gyda'r cynllun pâr/cyfun, gallwch hefyd fod ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol am aren gan roddwr marw* os ydych chi'n dymuno.

C3 Beth os oes sawl rhoddwr posibl ar gyfer un derbynnydd?

A3 Os oes mwy nag un rhoddwr posibl ar gyfer derbynnydd, gellir cofrestru'r rhoddwyr hyn i gyd gyda'r derbynnydd yn y cynllun pâr/cyfun, ar yr amod eu bod wedi cael eu hasesu'n llawn i gyd ac yn fodlon gwneud hynny. Mae hyn yn cynyddu'r posibilrwydd o gyfatebiaeth yn y cynllun. Os canfyddir bod un rhoddwr yn cyfateb yn llwyddiannus, ni fydd y lleill yn cael eu galw i roi. Os na ellir bwrw ymlaen â'r trawsblaniad am unrhyw reswm gyda'r pâr sydd wedi'i gyfateb, gall y rhoddwyr eraill ddewis bod yn rhan o'r cynllun eto gyda'r un derbynnydd.

* Gweler yr eirfa ar dudalen 10.

C4 Beth mae asesu'r rhoddwr a'r derbynnydd yn ei gynnwys?

A4 Mae'n rhaid asesu unrhyw un sydd eisiau rhoi (rhoddwr) neu dderbyn (derbynnydd) aren byw yn ofalus er mwyn sicrhau ei bod mor ddiogel ag y bo modd i fwrw ymlaen â thrawsblaniad yr aren byw a'i fod yn benderfyniad priodol i chi. Ceir Canllawiau clir yn y Deyrnas Unedig (DU) i gynghori ynghylch sut i wneud hyn.^{1,2,3,4} Byddwch yn derbyn gwybodaeth sy'n egluro sut mae'r broses asesu (paratoi) yn gweithio a byddwch yn cael digon o gyfle i holi cwestiynau a thrafod eich sefyllfa arbennig chi eich hun gyda'r tîm trawsblannu'n edrych ar eich ôl chi. Gyda rhoddion pâr/cyfun, fel rheol trefnir yr asesiadau ar gyfer y rhoddwr a'r derbynnydd gan y ganolfan drawsblannu lle mae'r derbynnydd yn cael gofal.

C5 Sut mae'r broses yn gweithio?

A5 Gallwch fod yn gofrestredig yn y cynllun pâr/cyfun fel pâr rhoddwr-derbynnydd ar ôl cwblhau'r ddau asesiad. (Gweler Ateb 4). Adeg hynny, gallwch benderfynu a ydych chi eisiau dewis terfyn oedran uchaf a/neu gyfatebiaeth ALD gyda rhoddwr arall a fyddai'n dderbyniol i chi. Mae'n bwysig trafod hyn gyda'ch tîm trawsblannu oherwydd gall po fwyaf o ddewisiadau a wneir gennych chi olygu bod llai o roddwyr yn cyfateb i chi. Mae'n rhaid i'r dewisiadau a wneir gennych chi gael eu gwneud cyn bwrw ymlaen â'r ymgais gyfateb* neu fe allwch gael eich cyfateb i roddwr nad yw'n bodloni eich dewisiadau chi. Mae hynny'n achosi gofid a siom i barau eraill yn y cynllun os nad oes modd bwrw ymlaen â'r trawsblaniad.

Bedair gwaith y flwyddyn (chwarterol) mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cynnal 'ymgais gyfateb' rhwng yr holl barau o roddwyr a derbynnyddion yn y cynllun, gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol sydd wedi cael ei chynllunio'n benodol i ganfod y nifer a'r cyfuniad gorau o drawsblaniadau posibl. Os ydych chi'n dderbynnydd sydd wedi dewis aros ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol am aren gan roddwr marw, gan aros yn y cynllun pâr/cyfun hefyd, byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y rhestr (dros dro) unwaith y bydd aren sy'n cyfateb wedi'i chanfod ar eich cyfer chi. Mae hyn yn bwysig er mwyn osgoi cael un rhan o'r broses gyfnewid yn chwalu a phawb yn cael eu siomi. Byddwch yn aros oddi ar y rhestr oni bai nad oes modd i'ch trawsblaniad fynd rhagddo am unrhyw reswm. Os felly, gallwch ddewis cael eich rhoi yn ôl ar y rhestr trawsblaniadau cyn gynted ag y bo modd.

Ni fydd cyfatebiaeth yn cael ei chanfod i bob pâr bob tro oherwydd ceir sawl rheswm dros barau'n methu cael eu cyfateb. Mae'r cyfnod aros yn anodd ei ragweld ond gallwch aros yn y cynllun am gyn hired ag y dymunwch chi. Po hiraf rydych chi'n aros, y mwyaf o 'bwyntiau' rydych chi'n eu sgorio, sy'n cynyddu eich siawns yn yr ymgais gyfateb nesaf. Er hynny, does dim gwarant y byddwch chi'n cael eich cyfateb ond po fwyaf o barau sydd yn y cynllun, y mwyaf o gyfle sydd i ddod o hyd i bâr addas i chi.

Cyfeiriadau

¹ UK Guidelines for Living Donor Kidney Transplantation, Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain/Y Gymdeithas Arennau, 3ydd Rhifyn, Mai 2011 www.bts.org.uk/

² Assessment for Renal Transplantation, Y Gymdeithas Arennau, 4ydd Rhifyn, 2008 www.bts.org.uk/

³ Antibody Incompatible Guidelines, Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain, Ionawr 2011 www.bts.org.uk/

⁴ Guidelines for Consent for Solid Organ Transplantation in Adults, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG/ Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain, Mawrth 2011 www.bts.org.uk/

* Gweler yr eirfa ar dudalen 10.

C6 Beth sy'n digwydd wedi i'r parau gael eu cyfateb a sut rydw i'n gwybod y byddaf yn cael aren dda?

A6 Pan gyfatebir parau addas, mae pob derbynnydd sy'n cael ei ddewis ar gyfer y 'cyfnewid'* yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol dros dro ac mae'r ganolfan drawsblannu berthnasol yn trefnu profion cydweddu (croesgyfatebiaeth ALD gan ddefnyddio samplau gwaed) rhwng yr holl barau sydd wedi'u cyfateb cyn gynted ag y bo modd. Dylai hyn ddigwydd yn ystod yr 1-2 wythnos nesaf er mwyn cadarnhau bod yr holl drawsblaniadau'n gallu mynd rhagddynt. Os na ellir bwrw ymlaen â'ch trawsblaniad chi am unrhyw reswm, byddwch yn cael eich rhoi yn ôl ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol ar unwaith.

Cyn y gellir bwrw ymlaen â'r llawdriniaethau trawsblannu, mae'n rhaid i'r AMD roi ei gymeradwyaeth. Mae pob rhoddwr a derbynnydd pâr/cyfun yn gweld Asesydd Annibynnol (AA)* lleol sy'n darparu adroddiad ysgrifenedig i'r AMD, gan gadarnhau canlyniad y cyfweiliad. Mae panel o aelodau'r AMD yn rhoi ei gymeradwyaeth unwaith mae'r parau i gyd yn y broses 'gyfnewid' wedi bod drwy'r broses hon ac wedi i'r holl ofynion cyfreithiol o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol gael eu bodloni. Weithiau, gall hyn gymryd ychydig mwy o amser nag arfer oherwydd gall yr apwyntiadau AA ddigwydd ar wahanol adegau i wahanol barau sy'n rhan o'r un 'cyfnewid', ond rhoddir ystyriaeth i hyn i gyd wrth gynllunio dyddiad y llawdriniaeth. Wedi ei ddyfarnu, mae cymeradwyaeth yr AMD yn para am chwe mis.

Rydym yn gobeithio y gellir bwrw ymlaen â'ch trawsblaniad chi o fewn 6-12 wythnos ar ôl yr 'ymgais gyfateb' ond mae'r amseru'n amrywio gan ddiybnyu ar faint o barau sy'n gysylltiedig (h.y. dau neu dri phâr) a pha mor gymhleth yw'r trefniadau rhwng yr holl ganolfannau trawsblannu. Mae'r trawsblaniadau'n cael eu cynllunio fel bod llawdriniaethau'r rhoddwyr yn dechrau yn union yr un pryd ar yr un diwrnod. Fel pâr o roddwr-derbynnydd, fel rheol bydd eich llawdriniaethau chi'n cael eu cynnal yn eich canolfan drawsblannu leol a bydd yr arennau sy'n cael eu rhoi'n teithio rhwng y canolfannau trawsblannu cysylltiedig. Trefnir cludiant arbennig i wneud yn siŵr bod yr arennau'n teithio mor gyflym ac mor ddiogel ag y bo modd i gyrraedd y derbynnyddion. Weithiau, efallai bod rhesymau lle mae'n haws neu'n fwy synhwyrol i roddwr a derbynnydd symud fel pâr i ganolfan drawsblannu arall ar gyfer y llawdriniaethau, sy'n bosibl i'w drefnu os yw pawb yn cytuno.

Ceir risg fechan o beidio bwrw ymlaen â llawdriniaeth fel y cynlluniwyd, gan adael derbynnydd heb drawsblaniad. Mae hyn yn anarferol wrth roi aren fyw ond fe allai ddigwydd ac mae'n bwysig deall wrth i chi ddod yn rhan o'r cynllun bod siawns fechan na fydd yn bosibl trawsblannu'r aren sydd wedi'i rhoi, neu na fydd yn gweithio, er gwaetha'r gwaith paratoi gofalus. Ceir llawer o fesurau diogelu i atal hyn rhag digwydd ac mae'r timau trawsblannu'n cydweithio'n agos iawn wrth gynllunio trawsblaniadau pâr/cyfun er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhannu a'ch bod chi'n rhan o'r penderfyniadau am eich rhodd a'ch trawsblaniad.

* Gweler yr eirfa ar dudalen 10.

C7 Oes gen i unrhyw gyfrifoldebau arbennig unwaith rydw i wedi cofrestru gyda'r cynllun?

A7 Drwy gofrestru gyda'r cynllun pâr/cyfun, rydych chi'n cytuno eich bod yn ymroi i fwrw ymlaen â'r rhodd a'r trawsblaniad os cewch eich cyfateb yn llwyddiannus, oni bai fod rhywbeth na allwch chi ei ragweld yn digwydd yn y cyfamser. Nid yw hyn yn diddymu eich hawl chi i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg hyd at y llawdriniaeth ond, gan ei fod yn effeithio ar barau eraill yn y cynllun, mae'n bwysig ceisio osgoi gadael i hyn ddigwydd.

Cyn pob 'ymgais gyfateb', bydd eu canolfan drawsblannu yn gofyn i bob rhoddwr a derbynnydd gadarnhau a ydynt yn dymuno cael eu gweithredu (cynnwys) yn yr ymgais honno. Mae hyn yn golygu eu bod yn iach ac yn fodlon cymryd rhan. Dyma pryd rydych chi'n cael cyfle i gael eich tynnu (eithrio) o'r cynllun cyn dod o hyd i gyfatebiaeth. Fel derbynnydd, os oes gennych chi roddwr posibl arall sy'n cael ei asesu ar eich cyfer chi neu os nad ydych chi wedi penderfynu a ydych chi eisiau bwrw ymlaen â thrawsblaniad cyfnewid am unrhyw reswm, dylech aros allan o'r 'ymgais gyfateb' nesaf nes eich bod yn siŵr eich bod chi a'ch rhoddwr/yr eisiau bod yn rhan o'r cynllun. Gallwch gael eich gweithredu (cynnwys) a'ch tynnu o'r cynllun mor aml ag y dymunwch chi, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny'n glir cyn yr 'ymgais gyfateb'. Os ydych chi a/neu eich rhoddwr/yr wedi bod yn sâl, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch tîm drawsblannu cyn gynted ag y bo modd, fel bod modd gwneud penderfyniad ynghylch a ddylech chi gael eich cynnwys yn yr ymgais gyfateb nesaf ai peidio. Hefyd, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich dewisiadau chi o ran oedran a mathau o ALD (gweler Ateb 5) yn glir ac wedi'u cadarnhau cyn bwrw ymlaen â phob 'ymgais gyfateb'.

Mae'r AMD yn gofyn i'r parau o roddwyr a derbynnyddion a gyfatebir fod yn anhysbys i'w gilydd cyn y llawdriniaethau, er budd yr holl roddwyr a derbynnyddion cysylltiedig. Os caiff yr anhysbysrwydd ei dorri cyn y trawsblaniad, fe allai atal y llawdriniaethau 'cyfnewid' rhag mynd yn eu blaen. Ar ôl y llawdriniaethau cyfnewid, gall fod yn bosibl i'r parau o roddwr-derbynnydd gyfarfod neu gysylltu â'i gilydd, os yw pawb yn cytuno i hynny. Gall y cydlynwyr trawsblaniadau rhoddwyr byw yn mhob un o'r canolfannau drawsblannu cysylltiedig eich helpu chi i gysylltu â'ch rhoddwr neu eich derbynnydd. Mae rhai pobl yn fwy preifat nag eraill ac efallai nad ydynt yn dymuno gwybod am barau eraill na'u cyfarfod. Ni ddylech deimlo o dan bwysau i wneud hynny; os nad ydych yn dymuno gwneud hyn, bydd eich preifatrwydd yn cael ei barchu.

Mae gan y cyfryngau ddiddordeb yn aml yn y mathau hyn o drawsblaniadau a gallant ofyn i chi fod yn rhan o straeon newyddion, rhaglenni radio a theledu neu unrhyw gyhoeddusrwydd arall. Mae'r AMD a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn cefnogi cyhoeddusrwydd er mwyn creu mwy o ymwybyddiaeth o roddwyr a thrawsblaniadau. Mae'r AMD a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG bob amser yn hapus i gynnig cyngor a cheir polisi cyfryngau i arwain pobl. Os gofynnir i chi fod yn rhan o unrhyw gyhoeddusrwydd, trafodwch hynny gyda'ch cydlynnydd rhoddwyr byw i ddechrau, fel bod ef/hi yn gallu eich cynghori. Os daw'r cyfryngau atoch chi yn uniongyrchol neu os ydych chi'n dymuno cynnig eich stori eich hun i greu mwy o ymwybyddiaeth, yn arbennig cyn rhodd neu drawsblaniad, cofiwch ofyn am gyngor cyn rhoi unrhyw fanylion a all ddatgelu pwy ydych chi fel pâr o roddwr a derbynnydd, pwy yw'r parau eraill cysylltiedig neu ddyddiad a lleoliad y llawdriniaethau arfaethedig.

Rhoddion Allgarol Heb Eu Cyfeirio

C8 Beth yw rhoddion allgarol heb eu cyfeirio?

A8 Mae hyn yn digwydd pan fydd person yn gwirfoddoli i roi aren i dderbynnwyd anhysbys, hynny yw, rhywun nad yw wedi'i gyfarfod na chlywed amdano erioed ac sy'n anhysbys iddo ef/hi. Mantais y math yma o rodd yw bod derbynnydd y trawsblaniad yn derbyn trawsblaniad aren gan roddwr byw ac iach, sy'n opsiwn da iawn i'r claf. Gall rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio naill ai roi rhodd i'r cynllun pâr/cyfun er mwyn creu 'cadwyn' o drawsblaniadau (gweler Ateb 11) neu roi'n anhysbys i glaf ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol er mwyn creu un trawsblaniad.

C9 Pwy sy'n cael bod yn rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio?

A9 Gall unrhyw oedolyn wirfoddoli i gael ei ystyried fel rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio (dros 18 oed yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru, dros 16 oed yn yr Alban). Os byddwch yn penderfynu eich bod yn dymuno gwirfoddoli ac os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â'ch canolfan drawsblannu leol a gofyn am dîm nyrsio'r cydlynnydd rhoddwyr byw. Os nad ydych chi'n gwybod ble mae eich canolfan agosaf chi, mae gwybodaeth ar gael yng ngwefan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn www.organdonation.nhs.uk i'ch cyngori.

C10 Sut mae'r broses yn gweithio ar gyfer y rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio?

A10 Ar gyfer rhoddwyr allgarol heb eu cyfeirio, fel rheol trefnir yr asesiad gan y ganolfan drawsblannu sydd agosaf at ble mae'r rhoddwr yn byw. Pan mae asesiadau'r rhoddwr a/neu'r derbynnydd wedi'u cwblhau, gellir eu cofrestru wedyn gyda'r Cynllun Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw Cenedlaethol.


Os bydd y tîm trawsblannu'n cytuno eich bod chi'n rhoddwr addas ar ôl i chi gael eich asesu yn llawn (gweler Ateb 4), byddwch yn cael asesiad gan AA ar gyfer yr AMD (gweler Ateb 6). Mae'r AMD yn gofyn i bob rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio gael asesiad iechyd meddwl llawn fel rhan o'r paratodau ar gyfer rhoi. Fel rheol, trefnir hyn ar ddechrau'r broses asesu. Os cewch eich cymeradwyo gan yr AMD, byddwch yn cael eich cofrestru gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG fel rhoddwr. Dyma pryd fyddwch chi'n cael cyfle i 'ddod allan' o'r cynllun cadwyn rhoddwr allgarol os ydych chi'n dymuno (gweler Ateb 11). Gallwch drafod eich dewisiadau gyda'ch cydlynnydd rhoddwyr byw a'r tîm trawsblannu.

Cadwyni Rhoddwyr Allgarol

C11 Beth yw cadwyni rhoddwyr allgarol?

A11 Digwydd hyn pan fydd rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio'n dewis rhoi aren i'r cynllun pâr/cyfun yn lle gwneud hynny'n uniongyrchol i'r rhestr trawsblaniadau genedlaethol. Mae'r aren sy'n cael ei rhoi'n cael ei chyfateb i dderbynnydd yn y cynllun pâr/cyfun ac, yn ei dro, mae'r rhoddwr sydd wedi'i gofrestru gyda'r derbynnydd hwnnw'n rhoi i dderbynnydd arall ac yn y blaen, fel y gwelir yn ffigur 2. Daw'r gadwyn i ben wrth i'r rhoddwr olaf roi ei aren i dderbynnydd ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol. Fel hyn, mae'n bosibl cyflawni mwy nag un trawsblaniad o un rhodd unigol heb ei chyfeirio. Gofynnir i bob rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio a yw'n fodlon rhoi i'r cynllun pâr/cyfun, er mwyn creu cadwyn, ond gall benderfynu peidio â gwneud hynny (eithrio) os yw'n dymuno, a rhoi'n uniongyrchol i'r rhestr trawsblaniadau genedlaethol yn lle hynny.

Fel rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio, os byddwch chi'n dewis rhoi eich aren i gynllun cadwyn y rhoddwyr allgarol, byddwch yn cael gwybodaeth am ddyddiad yr ymgais gyfateb pâr/cyfun chwarterol nesaf a'r amserlenni cysylltiedig, fel eich bod yn gallu penderfynu a ydych chi'n dymuno cael eich cynnwys yn yr ymgais ai peidio (gweler Ateb 5). Os byddwch yn penderfynu gwneud hyn, bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG bob amser yn gwirio i ddechrau i wneud yn siŵr nad oes claf mwy brys yn aros ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol. Yn yr achos hwn, bydd eich aren yn cael ei chynnig yn uniongyrchol i'r derbynnydd hwnnw i ddechrau. Os cynigir eich aren i'r cynllun pâr/cyfun ac os na chaiff ei chyfateb i dderbynnydd, bydd eich aren yn cael ei neilltuo'n awtomatig i glaf sydd ar y rhestr trawsblaniadau genedlaethol. Dywedir wrth y parau o roddwyr-derbynnyddion sydd wedi'u cofrestru gyda'r cynllun pâr/cyfun am y posibilrwydd o gael eu cyfateb i gadwyn rhoddwyr allgarol yn lle'r cyfnewid 2-ffordd (pâr) neu 3-ffordd arferol.



Ffigur 2. Cadwyn rhoddwyr allgarol.

C12 Beth sy'n digwydd pan fydd derbynnydd yn y cynllun pâr/cyfun yn cael ei ddewis mewn cadwyn rhoddwyr allgarol?

A12 Os yw derbynnydd yn y cynllun pâr/cyfun yn cael ei gyfateb mewn cadwyn rhoddwyr allgarol, mae'r broses yr un fath ag a ddisgrifiwyd eisoes (gweler Ateb 6). Os yw'r profion cydweddu gyda'r holl roddwyr a derbynnyddion sydd wedi'u cyfateb yn dangos bod modd bwrw ymlaen â'r trawsblaniadau, bydd angen cymeradwyaeth yr AMD ar gyfer y rhoddwyr pâr/cyfun a chynllunio dyddiad ar gyfer y llawdriniaethau (o fewn 6-12 wythnos fel rheol). Unwaith eto, mae'r rhoddwyr a'r derbynnyddion yn aros yn eu canolfannau trawsblannu lleol fel rheol ac mae'r arenau'n cael eu cludo i ganolfannau trawsblannu'r derbynnyddion.

C13 Oes unrhyw ystyriaethau arbennig ar gyfer rhoddwyr allgarol?

A13 Fel rhoddwr allgarol heb ei gyfeirio, mae'n rhaid i chi feddwl am y ffaith nad oes gennych chi unrhyw berthynas na chyswllt emosiynol ag unrhyw rai o'r derbynnyddion na'r rhoddwyr cysylltiedig â'r gadwyn o drawsblaniadau a all ddilyn eich rhodd chi. Mae hyn yn golygu nad ydych chi'n cael profi'r pleser o weld rhywun annwyl i chi yn elwa o drawsblaniad fel y byddech chi pe baech chi'n adnabod y derbynnydd. Os bydd y rhoddwyr a'r derbynnyddion eraill cysylltiedig yn penderfynu peidio â gwneud unrhyw gyswllt drwy gyfrwng y cydlynnydd rhoddwyr byw ar ôl y rhodd a'r llawdriniaethau trawsblannu, efallai na fyddwch chi'n gwybod sut aeth pethau iddynt. Efallai nad yw hyn yn broblem i chi ond mae'n bwysig eich bod chi wedi meddwl amdano fel rhan o'ch penderfyniad chi i roi.

Hefyd mae'n rhaid i chi benderfynu a ydych chi'n dymuno rhoi i'r (bod yn rhan o'r) cynllun pâr/cyfun er mwyn creu cadwyn rhoddwyr allgarol neu roi'n uniongyrchol i'r rhestr trawsblaniadau genedlaethol yn lle hynny. Efallai na fydd yn gyfleus i chi aros am ymgais gyfateb ac efallai y byddwch chi'n penderfynu bwrw ymlaen yn gynt drwy roi'n uniongyrchol i'r rhestr. Chi biau'r dewis a'ch lle chi fydd pwyso a mesur beth sydd orau i chi.

O ran cyfrifoldebau arbennig, fel anhysbysrwydd a chyhoeddusrwydd gan y cyfryngau, mae'r un cyfarwyddyd yn berthnasol i roddwyr allgarol heb eu cyfeirio ag i barau yn y cynllun pâr/cyfun (gweler Ateb 7).

Rhagor o wybodaeth

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu chi i benderfynu a ydych chi eisiau cymryd rhan yn y Cynlluniau Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw Cenedlaethol ai peidio, fel eich bod chi'n gallu trafod eich dewis yn fanwl gyda'ch tîm trawsblannu. Gellir cael rhagor o wybodaeth am drawsblannu arennau rhoddwyr byw yn y gwefannau canlynol:

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

www.hta.gov.uk

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

www.organdonation.nhs.uk

0300 123 23 23

Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain

www.bts.org.uk/

Cymdeithas Cleifion Aren Prydain

www.britishkidney-pa.co.uk

Ffederasiwn Cenedlaethol yr Arennau

www.kidney.org.uk

Rhowch Aren – Mae Un yn Ddigon

www.giveakidney.org.uk

Rhestr o Dermau

Cynlluniau Rhannu Arennau Rhoddwyr Byw Cenedlaethol

Cynllun sy'n galluogi i arennau gan roddwyr byw sy'n cael eu rhoi gan roddwyr allgarol heb eu cyfeirio a thrwy gynllun pâr/cyfun gael eu defnyddio ledled y DU er budd derbynyddion sy'n aros am drawsblaniad.

Deddf Meinweoedd Dynol

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a Deddf Meinweoedd Dynol (yr Alban) 2006 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yn y DU. Mae'r rheolau sy'n cael eu datgan gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (AMD) yn manylu ynghylch y gofynion penodol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir derbyn unrhyw rodd gan roddwr byw. Mae'n rhaid i'r AMD gymeradwyo pob llawdriniaeth gan roddwr byw ar ôl cynnal asesiad annibynnol.

AMD

Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol: corff rheoleiddio a sefydlwyd i weithredu gofynion y Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004).

AA

Asesydd Annibynnol: Person wedi'i hyfforddi a'i achredu sy'n annibynnol ar y tîm trawsblannu ac sy'n cyfweld rhoddwyr a derbynyddion trawsblaniadau organau byw yn y DU ac yna'n cyflwyno adroddiad i AMD.

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG – awdurdod iechyd arbennig sy'n rhan o'r GIG ac sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cyflenwad o waed, organau a meinweoedd. Yn Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, mae'r Gyfarwyddiaeth Rhoi a Thrawsblannu Organau yn gyfrifol am sicrhau bod organau a meinwe a roddir yn cael eu cyfateb i gleifion y mae angen trawsblaniad arnynt a'u bod yn cael eu defnyddio yn y ffordd decaf.

Rhestr trawsblaniadau genedlaethol

Rhestr ledled y DU o gleifion sy'n aros am aren gan roddwr marw.

Rhoddwr marw

Person sy'n rhoi ei organau a'i feinweoedd ar gyfer eu trawsblannu ar ôl iddo farw.

Trawsblaniad aren rhoddwr byw

Trawsblaniad aren rhwng rhywun sy'n rhoi aren yn ystod ei oes (rhoddwr byw) i dderbynnydd sydd angen trawsblaniad aren.

Anghydweddol

Pan mae gan dderbynnydd trawsblaniad aren wrthgyrff yn ei waed ef/hi sy'n mynd yn erbyn grŵp gwaed ei roddwr posibl ef/hi. Gall y gwrthgyrff hyn fod yn erbyn y grŵp gwaed neu yn erbyn y math o ALD sydd gan y rhoddwr a gall olygu na all y rhoddwr roi aren i'r derbynnydd mewn rhodd uniongyrchol a syml. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'diffyg cyfatebiaeth'.

Cydweddol

Digwydd hyn pan nad oes gan y derbynnydd wrthgyrff i grŵp gwaed y rhoddwr neu ei fath o ALD a byddai trawsblaniad uniongyrchol rhyngddynt yn bosibl.

Math o ALD

Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o antigenau a elwir yn Antigenau Lymffocyt Dynol (ALD) sy'n creu math-ALD unigol pob person. Cyfeirir at hyn yn aml fel math o feinwe. Mae'r math o ALD yn helpu i ddewis rhoddwyr addas ar gyfer derbynnyddion.

Gwrthgyrff

Yn y sefyllfa hon maent yn cyfeirio at y gwrthgyrff sydd gan y derbynnydd yn erbyn grŵp gwaed y rhoddwr neu ei fath o ALD. Mae'r gwrthgyrff i'r grŵp gwaed yn y gwaed ers genedigaeth y derbynnydd ond mae'r gwrthgyrff i'r math o ALD yn cael eu creu os yw'r derbynnydd wedi bod mewn cysylltiad ag antigenau person arall drwy feichiogrwydd (i ferched), trallwysiad gwaed neu drawsblaniad organ blaenorol.

Pâr rhoddwr-derbynnydd

Rhoddwr a derbynnydd sydd wedi'u cofrestru gyda'i gilydd yn y cynllun pâr/cyfun.

Ymgais gyfateb

Ymgais i gyfateb arennau a weithredir gan Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG er mwyn dewis yr holl gyfnewidiadau pâr/cyfun a'r cadwyni rhoddwyr allgarol.

Cyfnewid

Parau o roddwyr a derbynnyddion wedi'u cyfateb y mae arennau'n cael eu ffeirio rhyngddynt.

